maethu cymru | foster wales

Caerffili | Caerphilly

ymunwch â chymuned faethu Caerffili



cydweithio I adeiladu dyfodol gwell I blant lleol

working together to build better futures for local children

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

cynnwys

Diolch am ddangos diddordeb mewn maethu ar gyfer Maethu Cymru Caerffili.
Nod y pecyn gwybodaeth hwn yw rhoi cyflwyniad i chi i faethu yng Nghaerffili, y camau i ddod yn ofalwr maeth a sut y byddwn yn eich cefnogi yn ystod y daith anhygoel hon.

Beth yw gofal maeth? 3

Chwalu mythau maethu 4

Pwy sydd angen cael eu maethu? 6

Mathau o faethu 8

Beth sy'n gwneud gofalwr maeth da? 10

Pam dod yn ofalwr maeth gyda Maethu Cymru Caerffili? 11

Ydych chi eisoes yn maethu? trosglwyddwch atom ni 12

Pa gymorth a lwfansau ariannol byddaf yn eu cael? 13

Camau i ddod yn ofalwr maeth 17

Cwestiynau Cyffredin 18

Dim ond dechrau yw'r pecyn gwybodaeth hwn.
Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy ein gwefan:

https://fosterwales.caerphilly.gov.uk/cy/cysylltu-a-ni

Fel arall, gallwch ddod o hyd i'n manylion isod neu ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

08005875664 Text 'foster' to 78866

fostering@caerphilly.gov.uk

facebook.com/FosterCaerphilly

x.com/CaerphillyCBC

Maethu Cymru Caerffili
Ty Tredomen, Parc Tredomen
Ystrad Mynach, CF82 7WF

beth yw gofal maeth?

Mae maethu yn golygu derbyn plentyn fel rhan o'ch teulu pan fo rhaid iddo fod i ffwrdd o'i deulu ei hun. Gallai fod am noson, am fis, am flwyddyn neu am sawl blwyddyn. Wrth wraidd maethu mae ymroddiad i wneud gwahaniaeth - newid cwrs bywyd plentyn.

Mae llawer o resymau pam na all plant fyw gyda'u teulu, ond fel arfer mae hyn oherwydd problemau y mae eu rhieni'n eu profi fel salwch, anawsterau perthynas neu gamddefnyddio sylweddau, neu oherwydd bod y plentyn wedi cael ei esgeuluso neu ei gam-drin.

Gall gofalwyr maeth olygu lle diogel, dechrau newydd neu deulu newydd, ond nid yw hyn yn golygu dileu'r gorffennol – mae'r bondiau pwysig sydd gan blant maeth gyda'u teuluoedd biolegol yn cael eu cynnal, lle bynnag y bo modd.

Mae cadw cyfeillgarwch, mannau cyfarwydd a phopeth sy'n bwysig i'r plentyn yn ganolog i'r hyn a wnawn. Dyna pam y byddwn bob amser yn blaenoriaethu cadw plant yn eu cymuned leol os mai dyna'r peth iawn iddyn nhw.

Efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc yn dychwelyd adref ar ôl i'r problemau a achosodd iddyn nhw ddechrau derbyn gofal maeth gael eu datrys a'i bod yn amlwg y bydd eu rhieni'n gallu gofalu amdanyn nhw'n ddiogel. Ni fydd eraill yn gallu mynd adref a byddant yn mynd ymlaen i naill ai gael eu mabwysiadu neu eu maethu am weddill eu plentyndod.

Fel gofalwr maeth lleol, mae gennych rôl bwysig: gwneud yn siŵr bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi'i gefnogi. Ein rôl yw eich cefnogi ym mhob ffordd y gallwn.

Mae dod yn ofalwr maeth yn benderfyniad i helpu plant lleol sydd angen rhywun i wrando arnyn nhw, i gredu ynddyn nhw. Plant sydd angen rhywun wrth eu hochr nhw, rhywun i roi cariad iddyn nhw.

"Mae'r effaith y gallwch ei chael ar fywyd plentyn yn gallu bod yn enfawr. Os oes gennych empathi, ac os ydych yn gallu cynnig diogelwch a lle y gall plentyn ffynnu ynddo, yna dylech roi cynnig arni."

Hope, plentyn maeth

chwalu mythau maethu

Rydym am herio credoau poblogaidd am faethu.
Mae pob plentyn yn wahanol, ac mae'r gofalwr maeth sydd ei angen arno hefyd yn wahanol. Beth bynnag fo'ch ethnigrwydd, eich cyfeiriadedd rhywiol, eich crefydd, neu eich statws priodasol, rydym yn gofyn: a allwch chi wneud gwahaniaeth?
Ac a ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth? Os felly, hoffem glywed gennych.

1 Dwi'n rhy ifanc i faethu

Myth. Mae profiad bywyd yn fonws gwych, ond nid yw bod yn ifanc yn golygu na allwch fod yn rhan o gymuned faethu (enw'r awdurdod lleol). Gyda'n rhwydwaith o gymorth pwrpasol i'ch tywys, gallwch fwynhau'r llwybr cyffrous o'ch blaen, gan ganolbwyntio ar gariad, gofal a gwneud rhywbeth gwych i'ch cymuned.

2 Dwi'n rhy hen i faethu

Myth. Os oes gennych ystafell i blentyn i'w galw eu hystafell eu hunain yna nid oes angen i chi boeni am faint eich tŷ. Y cariad a'r gofal, a'r hyn sy'n digwydd tu mewn i'r tŷ sy'n ei wneud yn gartref i rywun.

3 Alla i ddim maethu os ydw i'n ddi-waith

Myth. Mae gofalwr maeth da yn sicrhau bod anghenion y plentyn wrth wraidd popeth mae'n ei wneud. Os ydych yn ddi-waith ar hyn o bryd, mae'n golygu y byddwch yn gallu neilltuo eich holl amser i les y plant a'u cefnogi'n llawn amser. Byddwch yn derbyn lwfans maethu i helpu gydag ochr ariannol maethu. Os ydych yn hawlio budd-daliadau, dylai fod hawl gennych i'w cael o hyd tra'n maethu.

4 Alla i ddim maethu os ydw i'n gweithio'n llawn amser

Myth. Nid yw bywyd gwaith bob amser yn rhwystr i faethu. Mae'n ymwneud â dewis y math cywir o faethu ar gyfer eich amgylchiadau a sicrhau y gall eich rhwydwaith fod yno i'ch cefnogi.
Rydym yn cynnig amrywiaeth o fathau o ofal maeth, sy'n golygu y bydd rhai yn cyd-fynd â'ch bywyd yn well nag eraill.
Mae'n werth gwirio gyda'ch cyflogwr hefyd, efallai y bydd yn cefnogi eich cynlluniau ac yn cynnig hyblygrwydd ychwanegol.

5 Alla i ddim maethu os ydw i'n byw mewn llety rhent

Myth. Mae gennym ofalwyr maeth gyda phob math o gartrefi gwahanol – eiddo rhent a chartrefi sy'n eiddo i'r gofalwyr. Cyn belled â bod eich sefyllfa fyw yn ddiogel, ni fydd hyn yn eich atal rhag helpu plentyn i symud ymlaen mewn bywyd. Os ydych yn hoffi lle rydych yn byw, efallai y bydd rhywun arall hefyd!

6 Alla i ddim maethu os nad oes gen i dŷ mawr

Myth. Cyn belled â'ch bod yn gallu cynnig ystafell sbâr, lle i blentyn ei alw'n lle ei hun, yna nid oes angen i chi boeni am faint eich tŷ. Y cariad, y gofal a'r sylw sy'n digwydd y tu mewn i'r tŷ sy'n ei wneud yn gartref i rywun arall yn y pen draw.

7 Alla i ddim bod yn ofalwr maeth pan fo anifeiliaid anwes gen i

Myth. Os oes gennych gi, cath neu unrhyw fath arall o anifail anwes, nid yw hyn yn golygu na allwch ddod yn ofalwr maeth. Yn hytrach, rydym yn cynnwys eich anifeiliaid anwes yn eich asesiad.
Mae angen i ni ddod i'w hadnabod, fel aelodau o'ch teulu, a gwneud yn siŵr y byddan nhw ac unrhyw blant maeth yn y dyfodol yn cyd-dynnu'n ddiogel.
Wedi'r cyfan, gallwch brofi lefel arall o gymorth gan anifeiliaid anwes, a gallant fod o fudd gwirioneddol i blant.

8 Dydy pobl LHDTC+ ddim yn gallu maethu

Myth. Nid yw bod yn ofalwr maeth da yn dibynnu ar eich rhywedd. Os gallwch ddangos cariad, tosturi a gofal i eraill, yna mae'r gymuned gofal maeth yn eich croesawu.
Nid yw rhywioldeb yn effeithio ar eich addasrwydd fel rhiant maeth. Eich gallu i gynnig amgylchedd diogel i blant fynegi eu hunain, cael hwyl a dysgu yw'r cyfan sy'n bwysig.



pwy sydd angen cael eu maethu?

Nid oes plentyn maeth nodweddiadol. Nid oes teulu maeth nodweddiadol chwaith. Mae gan bob plentyn yn ein gofal ei ddiddordebau a'i bersonoliaeth ei hun. Mae wedi dod o set unigryw o amgylchiadau, sydd wedi llunio ei fywyd hyd yn hyn. Rydym yma i sicrhau bod ei ddyfodol yn wahanol. Mwy disglair.

Babanod a phlant bach

Mae babanod a phlant bach angen eich cariad a'ch cymorth i allu delio â'r gwahaniad a'r golled y maen nhw wedi'u profi. Fel arfer, dim ond gofal byrdymor fydd ei angen arnyn nhw tra bo'r llysoedd yn penderfynu ar eu dyfodol.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd angen llawer o gyswllt â'r bobl sy'n bwysig ac yn gyfarwydd iddyn nhw, gallai hyn fod yn rhieni biolegol neu aelodau eraill o'u teulu agos. Bydd angen i chi fynd â nhw i ac o ymweliadau teuluol (hyd at 5 gwaith yr wythnos) yn ogystal â'u helpu i ddelio â sut maen nhw'n teimlo cyn ac ar ôl hynny.

Eich rôl chi hefyd fyddai cyflwyno arferion a ffiniau ac yna helpu i'w paratoi i symud yn ôl at rieni biolegol neu berson sy'n gysylltiedig â'u teulu, at deulu mabwysiadol neu at deulu maeth parhaol hirdymor.

Brodyr a chwiorydd

Rydym yn credu mewn aros yn lleol ac aros ynghyd. Mae cynnal bondiau brodyr a chwiorydd yn bwysig i blant; maen nhw'n cysuro ac yn sicrhau ei gilydd ar amser a all fod yn anodd. Mae hefyd yn bwysig i ni, a dyna pam mae paru brodyr a chwiorydd a'i gilydd gyda theulu maeth yn flaenoriaeth.

Pan fo gennym frodyr a chwiorydd sydd angen gofal maeth, yn aml mae angen mwy nag un ystafell sbâr.

Mae adeiladu dyfodol gwell yn aml yn ymwneud â gwneud y gorau o'r bondiau pwysig sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â chreu rhai newydd.

"Byddwch yn cael y cymorth, ac yn onest, pan maent yn mynd adref neu'n cael eu mabwysiadu, mae'n hudolus. Mae'n hudolus. Does dim byd yn debyg iddo."



Shirley, gofalwr maeth

Pobl ifanc yn eu harddegau

Mae gofalu am berson ifanc yn ei arddegau yn golygu gwrando, deall, helpu i wneud synnwyr o'r byd – a'i le ynddo. Mae'n ymwneud â chynnig sefydlogrwydd a diogelwch tuag at fod yn oedolyn.

Mae llawer o fythau'n ymwneud â phobl ifanc yn eu harddegau mewn gofal maeth, nad ydynt bob amser yn wir, ac sy'n golygu ein bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i deuluoedd maeth ar gyfer y grŵp hwn.

Mae pobl ifanc yn eu harddegau sydd mewn gofal yno am yr un rhesymau â phlant iau, fel esgeulustod neu gamdriniaeth, nid oherwydd eu bod yn drafferthus. Yn eu hoedran gallant elwa go iawn o'r arweiniad y mae gofalwyr maeth yn ei roi. Gall effaith a dylanwad trefn dda ac amgylchedd cariadus a meithringar arwain at effeithiau cadarnhaol dwys ar eu bywydau. Efallai y bydd eich arweiniad yn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol y byddant yn eu gwneud am eu dyfodol, ac yn helpu i wneud y dyfodol hwn yn fwy disglair.

Ffoaduriaid / ceiswyr lloches ifanc

Mae ffoaduriaid ifanc sy'n cyrraedd Cymru yn chwilio am ddiogelwch, dealltwriaeth, cymorth, llety ac arweiniad. Mae'n rhaid i lawer o ffoaduriaid ifanc adael eu teulu cariadus i ddianc rhag rhyfel, trais a gormes gyda'r gobaith o fywyd gwell. Gyda chymorth eich awdurdod lleol, gallwch dywys ffoadur ifanc at y cymorth sydd ei angen arno.

Mae llawer o ofalwyr maeth awdurdod lleol eisoes yn rhoi cymorth hanfodol, ond mae angen mwy i fynd i'r afael â'r argyfwng parhaus.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffoaduriaid ifanc sy'n cyrraedd Cymru yn fechgyn yn eu harddegau; mae llawer yn dod o Affganistan, Irac, Syria a Sudan.
Mae eu galluogi i barhau ag arferion crefyddol ac arferion eraill yn helpu i sicrhau parhad, cysur, a lles iddynt.

Nid yw ffoaduriaid / ceiswyr lloches ifanc yn chwilio am rieni newydd, ond yn hytrach am eich cymorth, eich arweiniad a lle i aros.

"Rydyn ni'n gwylio ffilmiau gyda'n gilydd, yn mynd i siopa, yn mwynhau cerddoriaeth a gigs ac yn mynd am fwyd, sy'n wahanol iawn o gymharu â phlant iau. Mae eu gweld yn datblygu'n oedolion ifanc yn rhoi llawer o foddhad."

Janine, gofalwr maeth

mathau o faethu

Yn union fel y mae pob cartref yn wahanol, mae'r gofal y mae ein gofalwyr maeth yn ei roi hefyd yn wahanol. Gall maethu olygu unrhyw beth o ychydig oriau, neu arhosiad dros nos, i rywbeth mwy hirdymor. Rydym bob amser yn addasu i anghenion y plentyn ac yn paru hyn â'r math o ofal y gall y gofalwr maeth ei roi.

Gofal byrdymor

Mae gofalwyr maeth byrdymor yn rhoi gofal i blant sydd angen diogelwch ar unwaith mewn cartref teuluol. Gall amrywio o dros nos i efallai cymaint â blwyddyn a gall ddigwydd yn gyflym iawn heb fawr o amser i baratoi a chynllunio.
Mae'n bwysig pwysleisio nad yw trefniant maeth byrdymor yn golygu llai o effaith, mewn gwirionedd i'r gwrthwyneb.
Mae'n cynnig y cam diogel cyntaf ar daith faethu ar gyfer plentyn sydd ei angen tra bod y penderfyniad ynghylch ble y bydd yn byw yn y dyfodol yn cael ei ymchwilio a'i benderfynu yn y pen draw gan y llys.



Gofal hirdymor

Mae gofalwr maeth hirdymor yn cynnig cartref sefydlog a chariadus gyda theulu maeth, i blentyn sydd angen sefydlogrwydd y tu allan i'w deulu biolegol.
Mae plant a gofalwyr maeth yn cael eu paru'n ofalus gan y gwasanaeth maethu i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu bodloni.
Ar gyfer plentyn mewn gofal maeth, mae gofal tymor hwy yn cynnig teulu maeth sefydlog am oes, gan greu'r amgylchedd iawn iddo ffynnu ynddo a'i baratoi i fyw'n annibynnol fel oedolyn.

Tra bod maethu byrdymor a hirdymor yn cwmpasu pob math o ofal maeth, o fewn y termau hyn mae rhai mathau mwy arbenigol hefyd, gan gynnwys:

Seibiant byr (gofal seibiant)

Mae gofal maeth seibiant byr yn cynnig y seibiant bach hwnnw i blentyn sydd ei angen fwyaf.
Mae'n ei gefnogi i barhau i fyw gartref ac atal teulu rhag chwalu.
Nid yw'n cael ei ddiffinio gan gyfnod penodol o amser, ond mae'n galluogi seibiant byr am noson, penwythnos neu hyd yn oed ychydig oriau yn unig.
Mae'r math hwn o ofal maeth yn addas i rywun sydd wedi ymrwymo i helpu plant a phobl ifanc, ond sydd â dim ond amser cyfyngedig ar gael i wneud hynny.
Mae ein tîm yn cynllunio seibiannau byr ymlaen llaw, gan eu gwneud yn ddigwyddiad rheolaidd neu dim ond pan fydd eu hangen ar y plentyn.

Rhiant a phlentyn

Mae gofal maeth rhiant a phlentyn yn helpu rhieni ifanc i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt, yn bersonol ac ar gyfer eu plentyn.
Mae'r math hwn o faethu yn eich galluogi i gynnig amgylchedd diogel, gofalgar a chefnogol i riant sydd angen y cymorth hwnnw'n fawr.
Byddwch yn cael y cyfle i feithrin y genhedlaeth nesaf fel y gall wneud yr un peth.
Mae rhiant a phlentyn hefyd yn sicrhau bod anghenion plentyn ifanc neu fabi yn cael eu bodloni mewn amgylchedd diogel, tra bod gofalwyr maeth yn cefnogi rhieni ar eu taith rianta.

Gofal therapiwtig

Mae gofal maeth therapiwtig yn fath hynod werth chweil o ofal, a bydd ein tîm bob amser yn rhoi lefel ychwanegol o gymorth i'r plentyn a'r gofalwr maeth cysylltiedig.
Gall plant ag anghenion emosiynol neu ymddygiadol mwy cymhleth elwa o fath ychydig yn wahanol o ofal.
Dyna'r hyn y gall Fy Nhîm Cymorth ei ddarparu. Ei gylch gwaith yw bodloni anghenion iechyd meddwl plant trwy ofal teulu (maeth neu fiolegol) yng nghymuned y plant a'u helpu i fyw bywyd mor gyffredin â phosibl. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio'n seicolegol gyda'r plentyn ei hun yn aml gan ddefnyddio sesiynau sy'n seiliedig ar weithgareddau mewn meysydd y mae gan y plentyn ddiddordeb ynddynt ac y mae'n gyfforddus â nhw. Y cymorth a'r arweiniad ychwanegol hynny sydd eu hangen arnynt a all eu helpu i ddatblygu a chyflawni eu potensial.

Bydd maethu yn eich synnu. Bydd yn eich herio. Bydd yn rhoi boddhad i chi.

beth sy'n gwneud gofalwr maeth da?



Yn y bôn, rôl gofalwr maeth yw bod yno. Bod yn gyson ac yn ddibynadwy. Mae'n rhywbeth sy'n dod yn ail natur – gyda thîm o'ch cwmpas, gyda chymorth a hyfforddiant, chi yw'r person sydd yno.

Hanfodion:

- Ystafell sbâr i blentyn i deimlo'n ddiogel a chael preifatrwydd
- Y gallu i wneud i blentyn deimlo'n ddiogel a bod croeso iddo
- Meddwl a chalon agored, ac amser i ymrwymo i ofalu am blentyn neu berson ifanc sy'n agored i niwed
- Dibynadwyedd

Nid yw'n ymwneud â thicio pob blwch. Mae'n ymwneud â thosturi a gofal bob dydd, cyhyd ag y bydd y plentyn gyda chi. Rhywun i wrando arnyn nhw sydd ei angen. Rhywun i gredu ynddyn nhw. Os gallwch wneud hynny, rydym eisiau clywed gennych.

Cryfderau personoliaeth:

- Dull meithringar, gofalgar ac empathetig o ymdrin â phlant a phobl ifanc
- Amynedd ac ymroddiad i gyflawni'r nod
- Agwedd gadarnhaol
- Egni a stamina - rhywun sy'n mwynhau bod yn brysur a chael amrywiaeth o dasgau
- Meddwl agored, goddefgar a derbyn gwahaniaethau pobl
- Sensitif ac empathetig - yn deall ac yn cydnabod teimladau ac anghenion eraill
- Digyffro dan bwysau ac yn gallu meddwl yn glir ar adegau o straen
- Sgiliau cyfathrebu a chydweithio - gallu gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â bywydau'r plant

pam dod yn ofalwr maeth gyda Maethu Cymru Caerffili?

Ffeithiau allweddol am Maethu Cymru:

- Ni yw'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu Awdurdod Lleol nid-er-elw ledled Cymru
- Mae gennym bresenoldeb cenedlaethol wedi'i adeiladu ar arbenigedd lleol
- Ein pwrpas yw gweithio fel tîm i greu dyfodol gwell i blant lleol, nid-er-elw
- Mae gan bob gofalwr Awdurdod Lleol, a phlentyn sydd yn ein gofal, rwydwaith cymorth lleol cyflawn, felly nid ydych chi byth yn teimlo eich bod ar eich pen eich hun
- Rydym yn rhan o'r gymuned ac yn wyneb cyfarwydd cyfeillgar

Drwy ymuno â ni:

- Byddwch yn dod yn aelod o'r gymuned faethu genedlaethol yng Nghymru, sefydliad sydd â chenhadaeth i greu dyfodol gwell i blant lleol
- Rydych yn ein helpu i osgoi defnyddio asiantaethau maethu costus sy'n gwneud elw, yn lle hynny gallwn fuddsoddi mwy o adnoddau yn Caerffili
- Rydym yn gweithio fel tîm mewn partneriaeth ag ysgolion lleol, a gwasanaethau iechyd, gwirfoddol a chynghorau yn rheolaidd sy'n golygu cymorth cyffredinol i chi
- Rydych yn cael eich paru â'r plentyn iawn i chi a'ch teulu. Credwn fod paru gwell yn sicrhau lleoliadau mwy cynaliadwy a sefydlog ac yn arwain at ganlyniadau gwell i blant maeth a gofalwyr maeth fel ei gilydd
- Mae'r plant rydych yn gofalu amdanyn nhw'n aros yn neu'n agos i'r cymunedau y maen nhw'n eu hadnabod
- Mae gofalwyr maeth eraill Caerffili yn byw'n lleol i chi, gan ei gwneud yn haws meithrin cyfeillgarwch a helpu ei gilydd



Claire and Nick, gofalwyr maeth

"Mae gennym ni ffrindiau da iawn nawr sy'n ofalwyr maeth hefyd. Rydyn ni wedi gwneud cyfeillgarwch cryf iawn sy'n braf iawn. Rydych chi'n cael ymdeimlad cryf o gymuned gan ofalwyr maeth eraill."

ydych chi eisoes yn maethu? trosglwyddo i ni!

Mae Maethu Cymru Caerffili yn rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol o 22 gwasanaeth maethu'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru, i gyd yn cydweithio tuag at yr un nod. Os nad ydych yn maethu'n rhan o'ch Awdurdod Lleol, gallwch drosglwyddo i ni.

Rhesymau dros drosglwyddo:

- cadw plant yn eu cymunedau lleol, yn agos at eu ffrindiau, eu hysgolion, eu teuluoedd a lleoedd cyfarwydd
- maethu'n uniongyrchol gydag arbenigwyr a thimau gwaith cymdeithasol yr awdurdod lleol; nid-er-elw
- cael hyfforddiant a chymorth o ansawdd uchel
- mae mwy o ofalwyr maeth awdurdod lleol yn golygu bod llai o arian yn cael ei wario ar leoliadau drud gydag asiantaethau maethu annibynnol
- dod yn rhan o gymuned faethu Caerffili; rydym yn dîm o bobl sy'n poeni ac rydym yn cefnogi ein gilydd bob cam o'r ffordd

Os ydych yn ofalwr maeth profiadol, sydd wedi ymrwymo i ofalu am blant a phobl ifanc yn (enw'r awdurdod lleol), hoffem glywed gennych.

Rydym yn gwybod nad ar chwarae bach y byddwch yn penderfynu trosglwyddo o'ch asiantaeth i Maethu Cymru, yn enwedig os ydych yn gofalu am blentyn yn barod.

Rydym yma i'ch helpu a'ch cynghori. Mae croeso i chi gysylltu â ni i gael sgwrs gyfeillgar ac anffurfiol i drafod eich ymholiadau a'ch pryderon.

pa gymorth a lwfansau ariannol byddaf yn eu cael?

Ar wahân i weithio gyda phlant a phobl ifanc a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, y manteision ychwanegol rydym yn eu cynnig yw cyfleoedd datblygu gyrfa, cymorth a chymuned.

Cymorth a gwobrau

Lwfansau cystadleuol

Ym Maethu Cymru Caerffili rydym am i chi deimlo eich bod yn cael eich cefnogi. Ar hyn o bryd mae gennym ofalwyr maeth sy'n derbyn o leiaf £657 yr wythnos i faethu 2 blentyn. Dysgwch fwy am gymorth ariannol ar y dudalen nesaf.

Dysgu a datblygu

Pan fyddwch yn dod yn ofalwr maeth, ni fyddwch byth yn rhoi'r gorau i ddysgu a datblygu eich sgiliau. O gymorth cyntaf pediatrig i ddatblygiad plant, ar-lein ac yn bersonol. Gallwch ennill cymwysterau mewn gofal cymdeithasol trwy faethu.



Cymorth proffesiynol

- O'r cychwyn cyntaf, byddwch yn cael gweithiwr cymdeithasol penodol a bydd gennych fynediad at dîm gwaith cymdeithasol therapiwtig penodol
- Men Who Care - grŵp i ofalwyr gwrywaidd sy'n cynnig cymorth gan gyfoedion ac sy'n rhan o'r pecyn cymorth ychwanegol
- Pan fyddwch yn ymuno â Maethu Cymru Caerffili, byddwn hefyd yn talu am eich aelodaeth o'r Rhwydwaith Maethu a Chymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru. Mae'r sefydliadau maethu arbenigol hyn yn cynnig cymorth annibynnol, cyngor preifat, arweiniad, hyfforddiant a llu o fanteision ychwanegol
- Arweiniad, cymorth a hyfforddiant gan Fy Nhîm Cymorth

Gwobrau eraill

- Cerdyn SMART, yn cynnig amrywiaeth o arbedion gan gynnwys mynediad am bris gostyngol i atyniadau a lleoliadau lleol.
- Pas CADW sy'n rhoi mynediad am ddim i bob castell yng Nghymru.

Cymuned faethu

Mae gennym hefyd gymuned anhygoel o ofalwyr maeth sydd â chysylltiadau da ac sydd bob amser yn hapus i rannu profiadau a doethineb.

Lwfansau ariannol

Lwfansau rheolaidd

Mae'r taliad maethu wythnosol a wneir i holl ofalwyr maeth cymeradwy Cyngor Dinas Caerffili yn cynnwys dwy elfen - y Lwfans Maethu ar lefel sy'n gyson â chyngor gan Lywodraeth Cymru, a Ffi Lleoli. Mae'r ddau daliad hyn yn gysylltiedig ag oed y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i leoli, a byddant yn cael eu talu am bob person ifanc tra'u bod yn parhau ar leoliad gyda'r gofalwr maeth. Mae taliadau am leoliadau yn cael eu gwneud bob pythefnos - bydd arian yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc.

Lwfansau maethu + Ffioedd lleoli (wythnosol fesul plentyn)

Bandio oedran	Lwfansau maethu	Ffioedd lleoli	Cyfanswm
0 - 4	£218	£140.76	£358.76
5 - 10	£199	£180.34	£379.35
11 - 15	£199	£203.44	£402.44
16+	£248	£203.44	£454.44

Bwriad y taliad Lwfans Maethu yw talu cost y canlynol:

- Dillad, yn cynnwys gwisg ysgol, a dillad chwaraeon a hamdden ac ati
- Bwyd, yn cynnwys cinio yn yr ysgol, ac yn cynnwys y rhan fwyaf o ofynion dietegol arbennig (nid yw plant sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim)
- Anghenion diwylliannol a chrefyddol
- Arian poced
- Costau sy'n gysylltiedig â phen-blwydd y plentyn/person ifanc, y Nadolig a gwyliau eraill
- Nwyddau ymolchi, gofal gwallt a chynnyrch gofal croen
- Teithio cyffredinol o ddydd i ddydd i'r ysgol/coleg, ac apwyntiadau gofal iechyd arferol, a gweithgareddau hamdden ac ati.
- Costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hamdden cyffredinol yn cynnwys deunyddiau
- Teithiau/ymweliadau ysgol yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cost mynd gyda'r teulu maeth ar wyliau yn y DU neu dramor, gwibdeithiau, teithiau dydd ac ati
- Traul cyffredinol y cartref
- Prynu ac amnewid cyflenwadau cartref cyffredinol (megis dillad gwely, lleiniau a bleinds), offer diogelwch angenrheidiol (megis gwarchodwyr tân, gatiau diogelwch, larymau mwg, monitor CO), teganau ac eitemau bach sy'n gysylltiedig â babi.
- Gofal priodol gan gynnwys gofal dydd cyffredinol neu drefniadau gofal eraill

Hawl gwyliau

heb blant	gyda phlant
• Mae gennych hawl i gael 'seibiant' o bythefnos y cytunwyd arno yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n rhedeg o fis Ebrill hyd at fis Mawrth. • Byddwch yn derbyn un taliad o'r ffi gofalwr maeth sy'n cyfateb i'r plentyn hynaf yn eich gofal ar adeg y seibiant. Bydd pob taliad arall yn dod i ben yn ystod y cyfnod hwn.	• Er mwyn sicrhau bod plant yn cael y profiadau gorau, rydym yn eich annog i'w gwneud yn rhan o'ch cynlluniau. Os byddwch yn mynd â'ch plant maeth gyda chi ar wyliau byddwch yn derbyn eich taliad arferol gyda ffi gwyliau ychwanegol ar gyfer pob plentyn (sef yr elfen ffi). Uchafswm y lwfans hwn yw 2 wythnos y flwyddyn. • Gwneir taliadau 2-4 wythnos ar ôl i'r cais am wyliau gael ei dderbyn gan y Tîm Maethu.

Lwfansau ychwanegol

Milltiroedd

Fel gofalwr maeth gallwch hawlio am filltiroedd ychwanegol ar gyfer unrhyw siwrneiau sy'n fwy na theithio bob dydd arferol i'r plentyn ac ar gyfer teithiau mewn perthynas â'ch rôl fel gofalwr maeth.

Lwfans pen-blwydd a Nadolig

Fel gofalwr maeth gallwch hawlio am filltiroedd ychwanegol ar gyfer unrhyw siwrneiau sy'n fwy na theithio bob dydd arferol i'r plentyn ac am deithiau mewn perthynas â'ch rôl fel gofalwr maeth.

Bydd lwfans pen-blwydd o £100 yn ychwanegol at eich lwfans wythnosol yn cael ei dalu'n awtomatig cyn dyddiad geni'r plentyn/pobl ifanc.

Telir lwfans Nadolig o £200 ar ddiwedd mis Tachwedd yn flynyddol; mewn amgylchiadau lle gall plentyn ddechrau derbyn gofal yn dilyn hyn, bydd angen i'r gweithiwr lleoli teulu fod yn cyflwyno cais am daliad.

DS: Os oes aflonyddwch yn y lleoliad a'ch bod wedi derbyn yr arian uchod, disgwylir y bydd y taliad hwn yn cael ei adennill neu ei symud gyda'r plentyn yn y ddau achos.

Taliadau cadw

Os nad oes gennych unrhyw leoliadau ond eu bod, fodd bynnag, ar gael, efallai y byddwch yn derbyn ffi cadw ar y gyfradd uchaf o'r plentyn blaenorol sydd wedi'i leoli.

Lwfans dillad cychwynnol

Os yw plentyn yn cael ei roi mewn gofal maeth am y tro cyntaf ac nad oes ganddo ddillad digonol, gallwch ofyn am daliad lwfans dillad untro cychwynnol. Mae hyn er mwyn prynu'r dillad sylfaenol y bydd eu hangen ar y plentyn.

Ni thelir y lwfans dillad cychwynnol mewn sefyllfaoedd fel plentyn yn symud o leoliad tymor byr i leoliad tymor hir neu os yw plentyn yn symud oherwydd diffyg yn y lleoliad.

Bandio oedran	Lwfans dillad
0 - 11	£130
11+	£200

DS: Dylid cwrdd â'r holl anghenion dillad eraill, gan gynnwys gwisg ysgol, o'r lwfansau a delir bob pythefnos.

Gofal dydd

Gellir darparu gofal dydd mewn amgylchiadau lle nad yw rhwydweithiau cymorth ar gael ar gyfer hyfforddiant neu mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth i gynnal lleoliad. Ni ellir talu gofal dydd mewn amgylchiadau lle mae gan eich plentyn yn y lleoliad wyliau ysgol/diwrnodau HMS wedi'u cynllunio.

Taliad Cymhelliant (recriwtio) - Ap Care Friends

Os byddwch yn argymell teulu/ffrindiau i ddod yn ofalwr maeth ar gyfer Caerffili, byddwch yn cael eich gwobrwyo
gyda thaliad untro o £500 unwaith y bydd y gofalwr cymeradwy yn lletya ei leoliad cyntaf.

Byddwch hefyd yn derbyn £1 bob tro y byddwch yn rhannu rôl faethu gydag aelod o'r teulu, ffrind, cydnabydd neu gydweithiwr.

Trefniant treth pan fyddwch yn maethu

Pan fyddwch yn dechrau maethu, bydd angen i chi gofrestru fel hunangyflogedig a ffeilio ffurflenni treth. Bydd gennych hefyd hawl i ryddhad gofal cymhwyso sy'n golygu y gallwch gael y canlynol:

- derbyn £18,140 o faethu cyn bod yn rhaid i chi dalu treth
- cael gostyngiad treth am bob wythnos y byddwch yn maethu plentyn

Mae rhagor o wybodaeth am dalu treth yn y canllaw i rieni maeth.

Sylwch na all gofalwyr maeth hawlio rhai budd-daliadau lles ar gyfer plant a leolir gyda nhw, fel budd-dal plant neu gredydau treth plant.

camau i ddod yn ofalwr maeth

Mae Maethu Cymru Caerffili yn rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol o 22 gwasanaeth maethu'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru, i gyd yn cydweithio tuag at yr un nod. Os nad ydych yn maethu'n rhan o'ch Awdurdod Lleol, gallwch drosglwyddo i ni.

cysylltwch â ni!
sgwrs gyfeillgar

ymweliad cartref
gallwn esbonio'r cyfan yn well wyneb yn wyneb

ffurflenni a gwiriadau
gadewch i ni wneud y pethau sylfaenol yn gyntaf

hyfforddiant
byddwch yn dysgu llawer

eich asesydd

Dyma pryd y byddwn yn dod i'ch adnabod yn iawn. Rydym am i faethu fod yn llwyddiant, felly rydym yn cymryd ein hamser.

Eich plentyndod, eich addysg, eich perthnasau, eich safbwyntiau a'ch credoau; eich teulu a'ch cymorth, eich canolwyr.

eich adroddiad asesu "ffurflen f"

mae panel yn darllen yr adroddiad

eich galwad ffôn gyntaf
a yw'r pariad yn iawn?

Cymeradwyaeth
Hwrê!



eich plentyn maeth cyntaf

cwestiynau cyffredin

Efallai y bydd gennych gwestiynau heb eu hateb o hyd, sy'n normal. Nid yw maethu yn benderfyniad dros nos. Isod, gallwch ddod o hyd i gwestiynau a ofynnir i ni drwy'r amser.

a alla i faethu os ydw i'n sengl?

Gallwch. Nid oes unrhyw ofynion arbennig o ran perthnasau. Gallwch fod yn sengl, yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Mae plant angen cartref diogel a sefydlogrwydd. Os gallwch gynnig hyn, gallwch faethu.

a oes rhaid i mi roi'r gorau i weithio i faethu?

Nac oes. Fel rhieni biolegol neu warcheidwaid teulu, mae rhai gofalwyr maeth yn gweithio'n llawn amser. Fodd bynnag, gall amserlen waith hyblyg helpu. Mae rhai gofalwyr maeth sy'n gweithio'n llawn amser yn penderfynu cynnig seibiannau byr ar benwythnosau neu wyliau, ac mae eraill yn penderfynu cynnig maethu hirdymor gyda chymorth aelodau o'u teulu.

a oes angen ystafell wely sbâr arnaf i faethu?

Yn gyffredinol, ydi. Byddwch angen ystafell wely sbâr lle gall plentyn deimloi'n ddiogel a chael preifatrwydd. Mae eithriadau. Os ydych yn meithrin brodyr a chwiorydd, gallent rannu ystafell.

pa mor hir mae'n ei gymryd i ddod yn ofalwr maeth?

O'n sgwrs gyntaf i'ch cymeradwyaeth swyddogol, gall y broses o ddod yn ofalwr maeth gymryd hyd at 4-6 mis. Byddwn wrth eich ochr pob cam o'r ffordd.

pwy sy'n penderfynu pa blant rydw i'n eu maethu?

Rydym yn gweithio gyda chi i baru plant gyda'r cartref sy'n iawn iddyn nhw. Rydych yn unigryw, gyda'ch sgiliau a'ch cryfderau eich hun, ac mae'r ffordd y bydd eich teulu maeth yn edrych yn unigryw hefyd.
Mae'n ymwneud â gwrando arnoch chi a'ch teulu. Yna gallwn eich paru â'r plentyn maeth sydd fwyaf addas ar gyfer eich sgiliau a'ch amgylchiadau.

a gaf i faethu os oes gen i euogfarn droseddol?

Mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau, fel y math o euogfarn, neu'ch oedran pan ddigwyddodd y drosedd. Fel rhan o'r broses asesu, mae pob ymgeisydd yn cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rydym yn cynghori y dylid trafod pob euogfarn flaenorol gyda ni cyn gynted â phosibl yn y broses.

a oes angen cymwysterau arnaf i faethu?

Nac oes. Nid oes angen unrhyw gymwysterau blaenorol na gradd i faethu. Dim ond trwy feddwl am y peth, mae gennych y pethau sylfaenol i ddod yn ofalwr maeth gwych. Trugaredd. Ymroddiad. Chwilfrydedd. Rydym yn cynnig yr arbenigedd i'ch helpu i adeiladu ar y pethau sylfaenol hynny, i roi i chi'r holl sgiliau sydd eu hangen arnoch. Gyda'r cyrsiau hyfforddiant a'r cymwysterau rydym yn eu cynnig, byddwch bob amser yn teimlo eich bod yn gwneud cynnydd.

a oes rhaid i mi allu gyrru?

Argymhellir hyn, ond mae hefyd yn dibynnu ar eich lleoliad a'ch mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Fel gofalwr maeth mae angen i chi fynychu cyfarfodydd amrywiol (yn aml yn ystod oriau gwaith) a mynd â'ch plentyn maeth i gwrdd â'i deulu biolegol (os yw'n berthnasol) mewn gwahanol leoliadau. Yn dibynnu ar oedran eich plentyn maeth, dylech hefyd allu ei ollwng i'r ysgol a'i gasglu ohoni, trefnu gweithgareddau ar ôl yr ysgol, gallu cynorthwyo gydag unrhyw argyfyngau fel apwyntiadau iechyd neu ymweliadau ysbyty, ac ati.

a alla i faethu os oes gen i broblemau iechyd?

Mae'n dibynnu. Fel rhan o'r asesiad, bydd pob ymgeisydd yn cael gwiriad meddygol i wirio ei fod yn addas i faethu. Mae'n cael ei gynnal gan eich meddyg teulu ac mae'r adroddiad yn cael ei anfon at ymgynghorydd meddygol i gael ei farn ar eich iechyd corfforol a meddyliol. Rydym yn eich cynghori i drafod unrhyw faterion iechyd gyda ni cyn gynted â phosibl.

a gaf i faethu os oes gen i fy mhlant fy hun?

Gallwch. Mewn gwirionedd, gall y profiad sydd gennych o fagu eich plant eich hun eich helpu yn eich taith faethu. Gall maethu hefyd gael effeithiau cadarnhaol amrywiol ar eich plant eich hun. Mae'n eu dysgu i fod yn fwy gofalgar, i ddeall problemau pobl eraill yn fwy, i fod yn fwy elusennol ac i rannu'n fwy. Mae llawer yn mynd ymlaen i weithio mewn gofal cymdeithasol neu ddod yn ofalwyr maeth eu hunain.

a ydych chi'n barod i gymryd y cam cyntaf?

Ymunwch â'n cymuned wych o ofalwyr maeth yn Caerffili i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau plant a phobl ifanc lleol.

Os hoffech chi wneud ymholiad, cysylltwch â ni drwy ein gwefan:

https://fosterwales.caerphilly.gov.uk/cy/cysylltu-a-ni

Fel arall, gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt isod neu ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

08005875664 Text 'foster' to 78866

fostering@caerphilly.gov.uk

facebook.com/FosterCaerphilly

x.com/CaerphillyCBC

Maethu Cymru Caerffili
Ty Tredomen, Parc Tredomen
Ystrad Mynach, CF82 7WF

yr hyn mae ein gofalwyr maeth yn ei ddweud...

Mae ein gweithiwr cymdeithasol yn hyfryd. Does dim byd byth yn ormod o drafferth iddi. Rwy'n gwybod y gallaf anfon neges neu ffonio ar unrhyw adeg a bydd bob amser yn ateb neu'n dod yn ôl ataf cyn gynted ag y bydd yn gallu. Mae'r ymweliadau misol mor hamddenol.

Mae fy ngweithiwr cymdeithasol bob amser ar gael dros y ffôn os bydd ei hangen arnaf, ac mae hi'n ffonio'n rheolaidd i wirio a yw popeth yn iawn.